Foundational Economy Research

# Chwe rheswm pam na ddylai Zip World gael £6.2 miliwn

**Adroddiad gan**
**Foundational Economy Research**
**(FERL)**

28 Ionawr 2025

## Chwe rheswm pam na ddylai Zip World gael £6.2 miliwn

Foundational Economy Research Ltd

Nod yr adroddiad byr hwn yw crybwyll materion er budd y cyhoedd mewn perthynas â'r meini prawf a ddefnyddir i ddyrannu cyllid cyhoeddus yn ôl disgresiwn i gwmnïau a all hawlio cymorth gwladwriaethol gydag addewidion y bydd swyddi'n cael eu creu ac y bydd gwerth ychwanegol gros (GVA) yn cynyddu[1]. Yn ein barn ni, dylid dyrannu cronfeydd cyhoeddus prin ar sail *ychwanegedd* – hynny yw, dylid eu defnyddio i gynorthwyo prosiectau na fyddent fel arall yn cael eu cynnal. Ymhellach, dylid mynnu bod yn rhaid i ymgeiswyr am grantiau ddangos buddion cymunedol lleol sylweddol – naill ai buddion uniongyrchol neu anuniongyrchol (y tu hwnt i greu swyddi).

Mae sylw yn syrthio ar y materion er budd cyhoeddus hyn yn sgil cais cyfredol Zip World am £6.2 miliwn o arian gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU trwy gyfrwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i 'ychwanegu' at £7 miliwn o'i fuddsoddiad ei hun mewn atyniadau ychwanegol a gwasanaeth eFws yn ei safleoedd presennol yng Ngogledd Cymru.[2] Mae'r cwmni wedi mynd ati yn y ffordd arferol i gefnogi ei achos dros gael cymorth trwy honni y bydd swyddi'n cael eu creu a thrwy sôn am y buddion a ddaw i ran y rhanbarth yn sgil gwariant gan bobl a fydd yn ymweld â'i atyniadau yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn rhan o batrwm rheolaidd. Pan oedd Zip World yn datblygu safle Pwll Glo'r Tower, cafodd fuddsoddiad cyhoeddus o £4.4 miliwn gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd[3] a arweiniodd at fenthyciad o £2.67 miliwn gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd[4].

Mae'r cymorth penodol disgresiynol hwn yn ychwanegol at y cymorth gwladwriaethol a roddwyd i, neu sydd ar gael i, Zip World a chwmnïau eraill yn rhanbarth Gogledd Cymru. Cafodd Zip World amryfal grantiau a oedd yn gysylltiedig â chyfnod clo'r pandemig Covid, sef cyfanswm o £2.7 miliwn, fel y datgelir gan y cwmni yn ei gyfrifon[5]. Mae pob cwmni, yn cynnwys Zip World, yn elwa ar gonsesiynau'r wladwriaeth ar ffurf lwfansau buddsoddi hael sy'n eu galluogi i ddidynnu 100% o gostau'r buddsoddiad ffisegol o'r elw cyn talu treth.

Nid oes gennym unrhyw ddadl gyda Zip World, sy'n gwmni llwyddiannus. Ers ei roi ar waith yn 2013, mae wedi tyfu mewn modd proffidiol. Mae'r cwmni bellach yn gweithredu ar draws wyth safle ac mae ganddo 583 o weithwyr[6]. Ond o ran budd y cyhoedd, y mater dan sylw yw: a ddylid cefnogi'r llwyddiant hwn yn awr trwy ddyfarnu swm disgresiynol o £6.2 miliwn o arian prin y trethdalwyr. Yn y ddogfen hon, nodwn chwe rheswm pam na ddylai Zip World gael y cymorth gwladwriaethol hwn. Dewiswyd y fformat 'chwe rheswm' fel ffordd o sicrhau y bydd materion technegol yn hawdd i gynulleidfa eang eu deall.

Seilir ein dadansoddiad ar wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, sef adroddiad a chyfrifon cwmnïau Zip World yn bennaf, y cafwyd gafael arnynt trwy gyfrwng Tŷ'r Cwmnïau. Ategwyd a chroeswiriwyd yr wybodaeth hon trwy ddefnyddio data'r gronfa ddata Fame. Mewn perthynas

â'r chwe rheswm, mae ein dadleuon yn fyr, mae'r dystiolaeth ategol yn hawdd ei deall a chaiff y dystiolaeth honno ei chrynhoi yn y tair delwedd eglurhaol hollbwysig. Cynhwysir manylion a chyfeiriadau mewn ôl-nodion a cheir siart sefydliadol yn yr atodiad. Dylai'r darllenwyr sylwi ar un cymhlethdod os ydynt am wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd.

Ers y pryniant gan y rheolwyr yn 2018, trefnwyd Zip World ar ffurf dull ecwiti preifat safonol fel grŵp â hierearchiaeth o gwmnïau.

- Roedd Zip World yn gwmni annibynnol; ond ar ôl y pryniant, daeth Zip World yn brif gwmni gweithredol lefel isaf y grŵp, sy'n rhedeg yr atyniadau i ymwelwyr, yn gwerthu tocynnau, yn talu cyflogau ac ati, ac mae wedi ffeilio cyfrifon ar gyfer 2016-22.
- Ers y pryniant yn 2018, ZWPV Ltd yw cwmni lefel uchaf y grŵp; mae'n cyfuno canlyniadau'r gweithrediadau mewn ffordd sy'n esgor ar fanteision treth i'r perchnogion, ac mae wedi ffeilio cyfrifon ar gyfer 2019-22.[7]


Mae cyfrifon 2023 yn hwyr ac nid ydynt wedi cael eu ffeilio eto. Efallai'n wir fod hyn yn gysylltiedig â'r cyhoeddiadau a wnaed yn y cyfryngau yn ystod haf 2024, sef bod y grŵp ar werth.[8] Mae gwerthu'r cwmni i dŷ ecwiti preifat arall wedi bod ar y gweill ers peth amser[9]; ac yn awr mae Zip World, yn ôl y sôn, wedi cael ei werthu i Dolphin Capital mewn cytundeb sy'n pennu bod Zip World yn werth £100 miliwn.[10]

## Rheswm 1

Mae hi'n hawdd iawn i Zip World fforddio ariannu ei fuddsoddiad ehangu yn llwyr trwy gyfrwng ei enillion ei hun a/neu trwy gyfrwng benthyciad masnachol, oherwydd mae ei atyniadau'n cynhyrchu llawer o arian ac maent yn broffidiol iawn. Mae'r cwmni gweithredu Zip World Ltd yn llunio adroddiadau am ganlyniadau'r gwaith o redeg yr atyniadau. Rhwng 2016-22, am bob punt o refeniw a gymerodd Zip World Ltd yn ei safleoedd, llwyddodd i gael 32c o enillion arian parod ar ôl talu costau gweithredu a llwyddodd i gynhyrchu 20c o elw ar ôl treth.

Dylai pobl nad ydynt yn gyfrifwyr sylwi bod yna ddwy ffordd hollbwysig o fesur y gwarged ariannol a gynhyrchir gan weithrediadau fel rhedeg atyniadau i ymwelwyr, sef: (a) EBITDA (enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddiad), sy'n debyg i'r gwarged arian gweithredu ar ôl talu costau dydd i ddydd fel cyflogau ar gyfer y gweithlu a phrynu nwyddau/gwasanaethau gan gyflenwyr; a (b) elw ar ôl treth y gellir ei ddosbarthu i berchnogion/rhanddeiliaid ar ôl cwrdd â chostau eraill fel dibrisiant cyfarpar cyfalaf, llog a threthi. Dengys y ddau ddull hyn gyda'i gilydd fod gweithrediadau mewnol Zip World yn cynhyrchu'r arian a'r elw a allai, ac a ddylai, ariannu'r ehangu yn llwyr.

**Eglureb 1**: Zip World Limited: Dosbarthiad refeniw ac EBITDA (sef enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddiad), 2016-2022[11]





## Rheswm 2

Os awn ati i ddwyn cymhariaeth â chwmnïau corfforaethol eraill y mae eu canghennau'n creu swyddi lleol, yna mae Zip World yn echdynnu llawer mwy o arian ar draul cwsmeriaid a chymunedau. Ystyriwch Zip World; cystadleuaeth gyfyngedig iawn sydd gan safleoedd Llechwedd neu'r Penrhyn o du atyniadau mawr eraill yn y rhanbarth, nid ydynt yn darparu unrhyw wasanaethau defnyddiol i gymunedau lleol ac maent yn cyfrannu at faint elw mawr iawn i'r cwmni gweithredu (sef maint elw o 32.2% ar EBITDA a maint elw o 20.2% ar refeniw ar ôl treth, 2016-22).[12] Cymharer hyn â Tesco sydd, fel arweinydd marchnad y DU mewn perthynas ag archfarchnadoedd, yn gweithredu mewn sector cystadleuol iawn, gan ddarparu gwasanaeth defnyddiol i gymunedau lleol trwy ddosbarthu nwyddau groser a chan esgor ar faint elw cymharol fach o 6.1% ar EBITDA ac elw ar ôl treth o 2.7% dros yr un cyfnod.

Wrth gwrs, nid seintiau mo archfarchnadoedd a gallant ddefnyddio'u pŵer yn erbyn cyflenwyr i ennill maint elw ac i fynnu prisiau rhatach. Ond ni ellir honni bod Tesco yn echdynnu arian ar draul cwsmeriaid a chymunedau. Mae Tesco yn defnyddio cyfalaf preifat yn ei siopau a'i systemau dosbarthu, ac mae gan y rhai sy'n berchen ar y cyfalaf hwnnw hawl i gael cyfradd adenillion resymol ar gyfalaf sy'n deillio o ychwanegiad gweddol fach ar werthiannau. Mae'r ffaith bod maint elw Zip World yn llawer mwy yn golygu ei fod yn echdynnu llawer mwy o arian. Mae hyn yn eironig o gofio bod safleoedd Zip World yng Ngogledd Cymru wedi'u lleoli mewn dwy chwarel lechi, sef gwaddol gwaith echdynnu ariannol a gwirioneddol a wnaed gan berchnogion a aeth ati i greu swyddi ond na wnaethant fawr ddim arall i'r cymunedau.


**Eglureb 2**: Enillion a maint elw cyfartalog Tesco a Zip World Limited ar refeniw gwerthiannau (2016-2022)[13]




## Rheswm 3

Ni ellir esgusodi diffyg cyfraniad at gymunedau lleol trwy ddweud bod Zip World yn gwneud cyfraniad canolog mawr trwy gyfrwng trethiant. Yn y DU, ni cheir un system gyfunol ar gyfer ffeilio trethi, felly rhaid i bob cwmni yn y grŵp ffeilio ffurflen dreth ar wahân, ac felly mae Zip World a ZWPV yn mynd ati ar wahân i dalu treth gorfforaeth ar elw. Yn unol â'r drefn arferol ar gyfer cwmnïau sydd mewn perchnogaeth ecwiti preifat, mae grŵp Zip World wedi'i drefnu ei hun mewn modd sy'n golygu ei fod yn talu llai o dreth gorfforaeth ar yr elw (gan leihau ei gyfraniad at Drysorlys y DU). Fel y nodwyd eisoes, mae'r cwmni gweithredu Zip World Limited yn cynhyrchu llawer o arian ac mae'n broffidiol iawn. Fodd bynnag, mae'r cwmni lefel uchaf ZWPV yn cynhyrchu llawer o arian ond nid yw'n broffidiol gan fod y perchnogion wedi'i sefydlu mewn modd sy'n lleihau'r elw, gan leihau felly unrhyw dreth a delir. Mae modd gwneud hyn gan fod dwy eitem fawr yn cael eu didynnu cyn esgor ar elw trethadwy: (a) mae ZWPV yn dewis cyllid i ariannu dyledion, sy'n cynhyrchu taliadau llog mawr a (b) mae ZWPV yn dewis cymryd taliadau amorteiddio blynyddol mawr i leihau'r ewyllys da a ddeilliodd o'r pryniant gan y rheolwyr yn 2018.[14]

**Eglureb 3**: ZWPV: Dosbarthiad refeniw ac EBITDA, 2019-2022[15]




Fel y nodwyd uchod, mae'r grŵp wedi bod ar werth ers haf 2024 gan fod y perchennog ecwiti preifat, Lloyds Development Capital (LDC), yn awyddus i adael, ac erbyn hyn mae Dolphin Capital wedi prynu Zip World am £100 miliwn yn ôl y sôn.[16] Nid yw amhroffidioldeb y cwmni lefel uchaf yn effeithio ar y pris gwerthu, oherwydd bydd y pris hwnnw wedi'i seilio ar faint o arian a gynhyrchir a bydd yn cael ei gyfrifo fel cymhareb EBITDA. Mae'r gymhareb honno'n gadarn. Dengys efelychiadau yn 2023 fod Zip World Ltd yn broffidiol trwy ddefnyddio mesur EBITDA ar 60% o "nifer y reidwyr", sef y term a defnyddir gan Zip World ar gyfer nifer ei gwsmeriaid.[17]

## Rheswm 4

Mae Zip World a nifer o sylwebyddion yn gorbwysleisio'r gwariant y mae'r cwmni'n ei ddenu i economi Gogledd Cymru. Mae cyfraniad Zip World at dwf gwerth ychwanegol gros (GVA) yn sgil gwariant ymwelwyr yn rhan o achos y cwmni dros gael cymorth ariannol. Ond mae'r honiad bod y cwmni wedi "cyfrannu" gwariant o £941 miliwn at economi Gogledd Cymru rhwng 2013-23 yn seiliedig ar ddull diffygiol sy'n lluosi (a) nifer cwsmeriaid Zip World gyda (b) cyfanswm eu gwariant yn ystod eu hymweliad â Gogledd Cymru.[18] Er enghraifft, pe bai teulu o Loegr yn dewis aros am wythnos mewn llety hunanarlwyo yng Nghymru, a phe bai aelodau'r teulu'n ymweld â Zip World Llechwedd yn ystod un diwrnod o'u gwyliau, byddai holl wariant yr wythnos honno ar lety, nwyddau groser, bwytai, atyniadau eraill i dwristiaid ac ati, yn cael eu hystyried fel cyfraniad Zip World at yr economi leol.

Darganfu arolwg Spike, a gynhaliwyd yn 2018, fod 63% o ymwelwyr wedi ymweld fel rhan o arhosiad hwy yng Ngogledd Cymru, ac mai 7 noson oedd y cyfnod aros mwyaf poblogaidd.[19] Yn 2024, dywedodd Prif Swyddog Gweithredol Zip World fod cwsmeriaid yn aros hyd at bedair neu bum noson ar gyfartaledd.[20] Felly, mewn sawl achos, mae Zip World yn cipio gwariant (ac weithiau'n ailgyfeirio gwariant) y rhai a fyddai'n dod i dreulio wythnos neu benwythnos hir yng Ngogledd Cymru pa un bynnag. Y cwestiwn hollbwysig yw faint o wariant ychwanegol a grëwyd gan Zip World. Mae

Adolygiad Gateway y Bwrdd Uchelgais wedi pennu ffigur o £62 miliwn ar gyfer GVA cronnol y prosiect, ond ni wyddom a gyfrifwyd y ffigur hwn ar ôl gwahaniaethu rhwng gwariant ychwanegol a gwariant a gipiwyd.[21]

## Rheswm 5

I'r graddau y mae Zip World yn esgor ar wariant ychwanegol gan ymwelwyr, mae llunwyr polisïau Cymru yn cydnabod yn gynyddol bod y canlyniadau'n gymysg gan fod gwariant mawr gan dwristiaid yn esgor ar gostau yn ogystal â manteision[22], a dylid ystyried y costau hynny wrth benderfynu pwy a ddylai gael cymorth gwladwriaethol. Wrth gwrs, mae cymunedau angen gwariant twristiaid yn economi Gogledd Orllewin Cymru (ac wrth gwrs, maent yn elwa ar wariant o'r fath), oherwydd twristiaeth yw'r diwydiant preifat mwyaf ac mae'n ffynhonnell bwysig ar gyfer enillion allforio. Ond hyd yn oed heb ystyried y problemau sy'n gysylltiedig â gormod o dwristiaid mewn rhai mannau poblogaidd, mae costau difrifol ynghlwm wrth wariant twristiaid pan fo'r eitem wariant fwyaf yn achos y mwyafrif o ymwelwyr yn cyfateb i'r rhent a dalant am lety gwyliau tymor byr.

Mae gan letyau hunanarlwyo le amlwg iawn yn nhwristiaeth Gogledd Cymru. Heb ystyried carafanio a gwersylla, mae nifer y gwelyau mewn cartrefi gwyliau tymor byr yng Ngwynedd deirgwaith yn fwy na nifer y gwelyau mewn lletyau â gwasanaeth (sef gwestai a lletyau gwely a brecwast).[23] Mae'r effaith yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae'r gwariant ar rent o fudd i gyfoeth nifer fechan o berchnogion eiddo tymor byr; ychydig iawn o incwm a gaiff ei ddosbarthu yn sgil creu swyddi. Yn ail, yn sgil cynnydd ym mhoblogrwydd Airbnb a phlatfformau eraill, mae nifer y lletyau gwyliau tymor byr mwy proffidiol wedi cynyddu, ac mae hynny wedi gwasgu ar gyflenwad lletyau gwyliau tymor hir llai proffidiol i drigolion lleol. Yn 2022, roedd 31% o letyau gwyliau preifat Gwynedd wedi'u rhestru ar Airbnb.[24]

## Rheswm 6

Mae creu swyddi newydd yn fudd gwirioneddol. Ond nid oes angen rhoi cymorth gwladwriaethol gan fod Zip World yn meddu ar yr adnoddau ariannol a'r cymhelliad ariannol i wneud buddsoddiadau a fydd yn cefnogi twf y busnes (ac a fydd, yn anorfod, yn creu swyddi). Mae'r cymhelliad yn syml. Mae gwerthu'r cwmni yn gynnar yn 2025 yn rhywbeth angenrheidiol ac anochel gan fod ZWPV – sef y cwmni lefel uchaf – wedi cael ei sefydlu yn 2018 gyda'r nod o ymadael ag ef a gwneud elw trwy ei werthu. Mae Lloyds Development Capital yn ymffrostio yn ei ymadawiadau proffidiol[25] a bydd hanner y llog sy'n ddyledus ar y benthyciadau A1 ac A2 a roddodd LDC i ZWPV yn cael ei ohirio tan yr ymadawiad[26]. Cyfrifir y pris ymadael ar ffurf cymhareb EBITDA, felly mae gan Zip World gymhelliad ariannol i ymestyn a chynyddu EBITDA trwy ychwanegu safleoedd newydd sy'n cynhyrchu arian a thrwy fuddsoddi mewn atyniadau newydd. Mae Zip World wedi gweithredu ar y cymhelliad ariannol hwn. Yn 2018, roedd Zip World wedi'i leoli'n bennaf yng Ngogledd Cymru, ac roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar dri safle, sef: Zip World Forest, Zip World Penrhyn a Zip World Llechwedd. Erbyn diwedd 2024, roedd Zip World yn gweithredu 33 o anturiaethau gwahanol mewn wyth lleoliad ledled Cymru a Lloegr, ac roedd safle newydd yn Llundain ar fin cael ei gyflwyno.[27]

Mae cymorth buddsoddi gwladwriaethol diangen yn esgor ar gost sylweddol ar gyfer pob swydd a gaiff ei chreu. Mae'r Adolygiad Gateway yn sôn am greu 70 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE), sef swyddi rhan-amser a/neu dymhorol yn bennaf, a honnir y bydd 226 o swyddi ychwanegol net i'w cael erbyn 2036[28]. Ar sail hyn, os cynigir grant o £6.2 miliwn, bydd cost y cymorth gwladwriaethol ar gyfer pob swydd newydd a gaiff ei chreu yn £27,433 fesul swydd ac yn £88,571 fesul FTE. Fe allai'r gost fesul swydd fod yn fwy: pan sonnir am greu swyddi newydd mewn ceisiadau am grantiau, dylid trin yr honiadau hynny'n ofalus, oherwydd yn aml byddant yn tueddu i fod yn optimistaidd gan fod yr ymgeiswyr yn gwybod na fydd eu honiadau, fel arfer, yn cael eu harchwilio ar ôl i'r arian gael ei wario.

## Materion a godir

Nod yr adroddiad hwn yw crybwyll 'mater er budd y cyhoedd' – sef a yw'n briodol rhoi arian cyhoeddus i Zip World i gefnogi ei brosiectau buddsoddi yng Ngogledd Cymru. Mae cymorth gwladwriaethol disgresiynol yn adnodd cyfyngedig a gwerthfawr a ddylai gael ei ddefnyddio'n effeithiol er budd y cyhoedd. Yn yr achos hwn, ni fyddai grant o £6.2 miliwn o fudd i'r cyhoedd.

Mae ein dadleuon ynghylch diffyg ychwanegedd yn ymwneud yn bennaf â beirniadaeth economaidd hirdymor ar bolisïau rhanbarthol a diwydiannol. Yn ôl yn y 1960au, daeth economegwyr i'r casgliad bod y wladwriaeth, trwy gyfrwng grantiau, yn rhoi arian i gwmnïau i wneud y pethau y byddent wedi'u gwneud beth bynnag, neu ei bod, trwy gyfrwng cymelliadau, yn ailgyfeirio gweithgareddau o un lle i'r llall. Wedi'r cwbl, diffyg ychwanegedd oedd y rheswm pam y cafodd arbrawf parth menter Llywodraeth Thatcher ei ddirwyn i ben.

Yr unig beth a wnawn ni yw diweddaru'r ddadl yn erbyn rhoi arian i gwmnïau i wneud y pethau y byddent wedi'u gwneud beth bynnag. Mewn economi sydd wedi'i chyllidoli, mae angen cynnal dadansoddiad fforensig ar gyfrifon grwpiau fel Zip World os ydym am wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd. Ac mewn byd lle ceir argyfwng natur ac argyfwng hinsawdd, mae angen inni roi ystyriaeth gymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i'r modd y gall rhanbarthau dan anfantais elwa a cholli yn sgil mwy o ymwelwyr a gwariant. Mae'n hen bryd inni roi dull 'hyddysg mewn cyfrifyddu' ar waith a rhoi'r gorau i'r rhagdybiaeth awtomatig bod "mwy yn well".

Mae ein dadansoddiad yn gosod dau gwestiwn ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:

- Mae'r cwestiwn cyntaf ar ddiwydrwydd dyladwy yn ymwneud â pham y mae adolygiad y Bwrdd yn canolbwyntio ar y prosiect buddsoddi mewn cyd-destun economaidd cyfyng sy'n ymwneud â swyddi a GVA, heb ddadansoddi grŵp Zip World na'i gwmnïau mewn cyd-destun cyfrifyddu. Heb hyd yn oed ystyried y cyfyngiadau cyffredinol sy'n perthyn i feini prawf swyddi a GVA, maent yn ddisynnwyr yn achos penodol Zip World. Cyn belled ag y bydd Zip World yn cynnal maint ei elw ac yn ychwanegu atyniadau a fydd angen gweithwyr, byddai'n syndod pe na bai unrhyw brosiect gan Zip World yn cynhyrchu swyddi a GVA. Ac mae'n ymddangos bod fframwaith y prosiect yn gynhenid analluog i gynhyrchu unrhyw wybodaeth am un mater hollbwysig, sef ychwanegedd, oherwydd er mwyn gwneud hynny byddai'n rhaid cael

dadansoddiad o'r grŵp a'r cwmni – sef dadansoddiad tebyg i'r un a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Yr awgrym yw bod diwydrwydd dyladwy a dulliau arfarnu'r Bwrdd yn annigonol a bod angen eu diwygio ar ôl cynnal trafodaeth gyhoeddus.

- Mae'r ail gwestiwn ar atebolrwydd yn gofyn a ddylid gwario £6.2 miliwn o arian y trethdalwyr yn y ffordd hon. Yn ôl pob tebyg, bydd y Bwrdd yn ymateb trwy ddweud ei fod yn dosbarthu cyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU at ddibenion polisïau rhanbarthol a diwydiannol, a bod y meini prawf swyddi a GVA a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cyfyngu ar ddisgresiwn y Bwrdd. Digon teg. Ond cyfyd hyn gwestiwn ynghylch pam nad yw'r Bwrdd yn cwestiynu natur annigonol meini prawf sy'n arwain at wastraffu arian cyhoeddus ar gymorth diangen. Gallai hynny arwain at drafodaeth ehangach ynghylch pa feini prawf y dylid eu cymhwyso at gymorth gwladwriaethol ar gyfer buddsoddiadau preifat yng Ngogledd Cymru, a hefyd sut fathau o fusnesau rydym yn dymuno'u hannog, a sut.

Yn achos Zip World, ein nod drwy gydol yr adroddiad byr hwn fu cwestiynu'r meini prawf sy'n sail i benderfyniadau cyhoeddus, nid beirniadu'r cwmni. Ond dylai ein dadansoddiad beri i'r grŵp oedi a chnoi cil. Cydnabyddwn fod Zip World yn coleddu uchelgais i wneud daioni, oherwydd mae wedi llwyddo i ennill statws B Corp ar gyfer ei fusnes gweithredu, ac mae hynny'n golygu rhoi peth ystyriaeth i weithwyr, i gyflenwyr ac i'r blaned. Ond mae gan y cwmni 'fan dall'. Ni welir unrhyw arwydd o weithredu gwirioneddol na chyllid sylweddol a fydd yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau y mae'r cwmni'n gweithredu ynddynt, fel Blaenau Ffestiniog a Bethesda.

*Foundational Economy Research Ltd,* 28 Ionawr 2025


Peter Folkman, Julie Froud, Colin Haslam, Sukhdev Johal a Karel Williams.

Gwefan: *https://foundationaleconomyresearch.com/*

Cyfeiriad cyswllt: williamskarel@hotmail.com

## Atodiad

### Strwythur Corfforaethol Cwmniau Zip World




Ffynhonnell: Gwybodaeth a ffeiliwyd gyda Thŷ'r Cwmnïau

[1] Gwerth Ychwanegol Gros (GVA): Mae GVA yn ffordd o fesur gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, diwydiant neu fusnes dros gyfnod o amser.

[2] Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Prosiect Anturiaethau Cyfrifol Trawsnewidiol Zip World. [Cyrchwyd ar 22 Ionawr 2025]

[3] Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Prosiect Adfywio Safle Glofa'r Tŵr gan Zip World.

[4] Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn cael 4.5% o log ar falans sy'n lleihau; mae benthyciadau perchnogion yn cael 8% ar y cyfanswm a gaiff ei fenthyg, un hanner mewn arian a'r hanner arall wedi'i ohirio ac i'w dalu wrth ymadael. Ffynhonnell: Adroddiad Ariannol a Datganiadau Ariannol ZWPV, 2022.

[5] Adroddiad a Datganiadau Ariannol ZWPV, 2019-2022.

[6] Adroddiad a Datganiadau Ariannol ZWPV, 2022. Mae nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn sylweddol is oherwydd natur dymhorol a rhan-amser y swyddi.

[7] Perchennog mwyafrifol y grŵp trwy gyfrwng ZWPV yw Sean Taylor a'r perchennog lleiafrifol yw Lloyds Development Capital, sef un o is-gwmnïau ecwiti preifat mewnol Banc Lloyds. Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ZWPV, 2022.

[8] Mark Kleinman (11 Awst 2024), Zip World backer LDC plots sale of outdoor adventure parks stake, Sky News.

9 Ar 20 Rhagfyr 2024, roedd gan Dolphin Capital ddigon o fuddiant i gofrestru 3 chwmni newydd, sef: ZWPV Topco (rhif cofrestru 016147151), ZWPV Midco (rhif cofrestru 016147365) a ZWPV Bidco (rhif cofrestru 016147438). I gael rhagor o wybodaeth am Dolphin Capital LLP, gweler gwefan y cwmni.

10 Sunday Times (26 Ionawr 2025), 'Dolphin leaps on £100m Zip World'. (fersiwn ar-lein yma)

11 Adroddiad a Datganiadau Ariannol Zip World Limited, amryfal flynyddoedd a Fame, BvDep.

12 Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Zip World, amryfal flynyddoedd a Fame, BvDep.

13 Adroddiad a Datganiadau Ariannol Zip World Limited a Tesco, amryfal flynyddoedd a Fame, BvDep.

14 Pan brynwyd Zip World am £42.2 miliwn yn 2018, roedd ganddo asedau net a oedd yn werth £6.1 miliwn a chofnodwyd yng nghyfrifon ZWPV bod balans o £36.1 miliwn o'r pris prynu yn ewyllys da. (Ffynhonnell: Adroddiad a Datganiadau Ariannol ZWPV, 2019) . Ni cheir arferion sefydlog ar gyfer amorteiddio ewyllys da fel y ceir ar gyfer asedau diriaethol. Mewn gweithrediad proffidiol sy'n tyfu, gellir cynnwys hyn yn syml ar y fantolen a'i adolygu'n flynyddol. Mae ZWPV yn dewis amorteiddio ar gyfradd o 10% y flwyddyn. Mae hyn yn esgor ar ddwy effaith. Yn gyntaf, mae'r tâl amorteiddio'n lleihau'r elw trethadwy. Yn ail, mae amorteiddio'r ewyllys da a ddeilliodd o'r pryniant yn 2018 yn lleihau faint o ewyllys da y gall y prynwr nesaf ei brynu pan gaiff y cwmni ei werthu.

15 Adroddiad a Datganiadau Ariannol ZWPV, 2019-2022.

16 Andrew Forgrave (27 Ionawr 2025), Zip World sold in £100m deal as it looks to get even bigger, Wales Online [Cyrchwyd ar 27 Ionawr 2025].

17 Adroddiad a Datganiadau Ariannol ZWPV, 2019, t.9.

18 Adroddiadau gan Dwristiaeth Gogledd Cymru yw ffynhonnell yr honiadau bod Zip World wedi cyfrannu £251 miliwn at economi Gogledd Cymru rhwng 2013-18 a'i fod wedi cyfrannu £941 miliwn rhwng 2013-23. Er enghraifft, gweler https://www.walesonline.co.uk/news/uk-news/zip-worlds-near-1bn-impact-29203105. Gellir lawrlwytho adroddiad 2018 , ac mae'r ffigur £251 miliwn yn deilio o atebion ymwelwyr i'r cwestiwn "what was your spend in North Wales during your visit? including accommodation" t.5. Nid yw adroddiad 2023 ar gael i'r cyhoedd, ond caiff Prif Swyddog Gweithredol Zip World ei ddyfynnu mewn erthygl lle mae'n esbonio bod y £941 miliwn yn cyfateb i "spend across the attraction itself, accommodation and other facilities and amenities in the area including pubs and shops". https://businessnewswales.com/tourism- upselling-offers-boost-to-the-economy/ 28 Medi 2024.

19 Go North Wales (2018), Asesu Effaith Zip World ar Adolygiad Economi Gogledd Cymru 2018 | Twristiaeth Gogledd Cymru, t.3.

20 Business News Wales (28 Medi 2024), Tourism 'Upselling' Offers Boost to the Economy

21 Bargen Twf y Gogledd, Adolygiad Gateway 2+.

22 Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwynt hwn ar gyfer "cyrchfannau allweddol" Cynllun cymorth ar gyfer seilwaith twristiaeth leol a chyfleusterau ymwelwyr [HTML] | LLYW.CYMRU

23 Foundational Economy Research (Chwefror 2023), Briefing paper 1: for community researchers Tourism as it is in Gwynedd t. 2.

24 Sefydliad Bevan (Medi 2022), Holiday Lets and Private Rental Sector, t.2.

25 Gwefan Lloyds Development Capital [Cyrchwyd ar 22 Ionawr 2024]

26 Adroddiad a Datganiadau Ariannol ZWPV, 2022, nodyn 21, tt. 45-46. Sylwer: Mae'r benthyciadau A1 ac A2 yn denu cyfradd log sefydlog o 8% ac mae hyd at 50% o'r llog yn daladwy bob chwarter. Hefyd, mae cyfranddaliadau braint yn denu 8%.

27 Lloyds Development Capital, Zip World: high-speed growth plans. [Cyrchwyd ar 22 Ionawr 2025]

28 Bargen Twf y Gogledd, Adolygiad Gateway 2+, tt. 2-3.